CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dafydd Rhys Thomas**
**Grŵp: Annibynnol** **Ward: Ynys Gybi**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 5 (55%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 6 (67%) |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 2 (50%) |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 7 (87%) |
| Pwyllgor Apeliadau (mynychu ar sail rota) | Dim cyfarfodydd |
| Pwyllgor Safonau | 2 (100%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 cyfarfod (100%).

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Grŵp Cyswllt Prosiect Horizon Nuclear Power | 3 | 2 |
| Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr | 6 | 3 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf wedi mynychu'r 10 cyfarfod o Gyngor Cymuned Trearddur yr wyf yn aelod ohono a hefyd wedi mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Rhoscolyn fel sylwedydd ac aelod lleol. Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Morswyn ac wedi mynychu'r cyfan o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers mis Mawrth 2015. Rwyf hefyd yn cynrychioli Cyngor Cymuned Trearddur a Chyd-Fwrdd Claddedigaethau Caergybi sy'n gyfrifol am reoli Mynwent Maeshyfryd.

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Rwyf yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Cysgodol Ysgol Cybi ac rwyf wedi mynychu 4 cyfarfod a gynhaliwyd hyd yma ac yn ogystal, rwyf yn aelod o Grŵp Cydranddeiliaid Wylfa Newydd ac wedi mynychu'r 3 cyfarfod a gynhaliwyd.

Rwy'n cymryd rhan yng Ngrŵp Cydranddeiliaid Caergybi sy'n gyfrifol am adfywiad economaidd y dref dan fantell mentrau megis y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Rwy'n ymwybodol o'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac yn cymryd rhan weithredol mewn grwpiau ffocws a gweithdai mewnol.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y Cyngor Iechyd Cymuned ac yn cymryd diddordeb brwd mewn unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag iechyd. Rwyf wedi cynnal ymweliadau dirybudd mewn ysbytai fel rhan o'r rôl honno. Fel un sy'n derbyn triniaeth am ganser, rwyf yn aelod o Fforwm Canser Gogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar ofal sy'n ymateb i ddyheadau'r claf ac rwyf wedi mynychu Cynhadledd 'Cancer Voices' Macmillan a Chynhadledd y Gymdeithas Lymphoma Genedlaethol ac rwyf hefyd yn ymwneud â'r prosiect i ailfodelu Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd ac rwy'n teimlo'n angerddol am gadw gwasanaethau iechyd yn lleol.

Rwy'n cymryd diddordeb brwd yn ym mhob agwedd ar fywyd yr etholaeth ac yn barod bob amser i gwrdd yn anffurfiol ag etholwyr i drafod unrhyw fater sydd o bryder lleol neu bersonol, e.e. gwastraff, materion cynllunio a phriffyrdd, llifogydd, tai, mwynderau ac ati ac rwyf ar gael ar y ffôn, e-bost neu wyneb yn wyneb. Rwy'n cyfeirio materion i'r adrannau priodol ar ran yr etholwyr er mwyn cychwyn trafodaeth ac rwy'n ddiolchgar i'r swyddogion am eu help a'u cefnogaeth i roi sylw i'r materion hyn a'u datrys.

Rwy'n parhau i gymryd rhan yn y digwyddiadau glanhau cymunedol yn Nhrearddur a drefnir gan y Gymdeithas Drigolion ac mae'n rhaid eu canmol ar eu llwyddiant o wella edrychiad y pentref drwy dorri gwrychoedd a llystyfiant, cael gwared ar sbwriel a phlannu blodau a llwyni ac ati. Mae'n ffordd ardderchog o ddod â'r gymuned at ei gilydd i gyflawni rhywbeth positif. Rwyf hefyd yn awyddus i gadw ein cyfleusterau cymunedol megis y cae pêl-droed ac i wella'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig i ymwelwyr.

Mae'n braf gweld bod dwy ganolfan gymuned newydd ym Maeshyfryd a Kingsland wedi agor bellach a hefyd y cynlluniau ar gyfer tai cymdeithasol yn y ward. Rwyf hefyd yn falch bod y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn cynnwys rhan o Drearddur a bod sawl busnes wedi elwa o'r cynllun a hefyd y tîm pêl droed.

Gyda chefnogaeth y grant fe fu'n bosibl creu llwybr troed ar hyd Lôn Ravenspoint, ac yn wir mae ardal Trearddur wedi dod yn fan llewyrchus.

Wrth gwrs, mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn materion sy'n effeithio'r ynys gyfan, e.e. Wylfa Newydd, Orthios, cynlluniau'r Grid Cenedlaethol a chais Land and Lakes ynghyd â materion cymdeithasol megis gofal oedolion, addysg, ac yn ddiweddarach, yr angen i glustnodi safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr ac rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod cyhoeddus a sesiynau briffio ar y materion hyn.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Sesiwn ymwybyddiaeth Sipsiwn a Theithwyr | 16/06/2016 |
| Rheoli'r Trysorlys | 9/11/2016 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (17 allan o  23 = 74%) | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |

Cefais y sesiynau briffio'n arbennig o ddefnyddiol oherwydd maent yn rhoi trosolwg o'r materion pwysig sy'n wynebu'r Cyngor ac maent yn ffordd ardderchog o gadw i fyny â datblygiadau fel y gellir trosglwyddo gwybodaeth i'r etholwyr am unrhyw fater perthnasol.

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Mae'n bleser ac yn anrhydedd cynrychioli pobl Ward Cybi ac rwyf wedi mwynhau'r 12 mis diwethaf yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen at y cyfnod nesaf gyda brwdfrydedd ac optimistiaeth er gwaethaf yr heriau sy'n ein hwynebu. Hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau, Jeff a Trefor a phobl Ward Cybi am eu cyfeillgarwch ac rwy'n pwysleisio fy mod ar gael bob amser i help a chynghori mewn unrhyw ffordd. Diolch hefyd i swyddogion y Cyngor am eu cymorth parod a'u gwaith caled.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** | **Ebrill 2017** |